# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Mercher 21 Mawrth 2012 am 9.30am.

## PRESENNOL

Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd), I W Armstrong, J R Bertholau, J B Bellis, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain-Jones (aelod lleol), W Cowie (arsyllwr), J A Davies, J M Davies, M Lloyd Davies, P Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, D Hannam, C Hughes, R W Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, D W Lee (aelod lleol), P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, J Thompson-Hill a C H Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygu (P Mead), Prif Gyfreithiwr (Susan Cordiner), Prif Swyddog Cynllunio (I Weaver), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (J Williams) a Chyfieithydd (Catrin Gilkes)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr I A Gunning ac L M Morris.

## 2 DATGANIAD BUDD

Datgelodd y Cynghorydd S Thomas fudd yng nghais 44/2011/1500/PF (Nevis, Ffordd y Gors, Rhuddlan).

Datgelodd y Cynghorydd R W Hughes fudd yng nghais 43/2012/0102/PF (Sinema Scala, Prestatyn).

## 3 EITEMAU BRYS: Dim

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 CHWEFROR 2012

Penderfynwyd – o nodi'r ymddiheuriad a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd R W Hughes – cadarnhau bod cofnodion 15 Chwefror 2012 yn gywir.

## 5 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (dosbarthwyd ynghynt) yn nodi'r ceisiadau a gyflwynwyd ac a oedd angen penderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u gwelwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd. Bod y rhai oedd wedi'u caniatáu neu eu gwrthod ar gyfer cynllunio, pa un bynnag oedd hynny, yn derbyn hysbysiad fel sy'n briodol o fewn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref Gorchymyn (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1991 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau canlynol, yn ddibynnol ar yr amodau a nodwyd yn y drefnlen a gyflwynwyd:-*

**Eitem 1**

**Rhif y Cais: 06/2011/1509/PFT**

**Lleoliad:** **Tir i'r dwyrain o Maesgwyn Ucha, yn Nhŷ'n Y Celyn, Gwyddelwern, Corwen**

**Disgrifiad:** Codi un Tyrbin Gwynt 36.4m i'r both, 46m i'r blaen a gwaith cysylltiol.

**Dywedwyd eu bod wedi derbyn y llythyrau datganiadau ychwanegol canlynol:**

- Cyngor Cymuned Gwyddelwern
- Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith Sir Ddinbych
- Swyddog Cynllunio AONB Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**Siaradwyr Cyhoeddus:** Haydn Roberts (Tros)
Eglurodd Mr Haydn Roberts ei fod wedi bod yn astudio Peirianneg Sifil ym Mhrifysgol Caerdydd a'i fod yn dychwelyd i drawsnewid ysgubor ar fferm ei rieni. Mae'n gobeithio chwarae ei ran drwy sicrhau bod y trawsnewidiadau mor 'wyrdd' ag sy'n bosibl. Bydd y tyrbin o fudd iddo i helpu i dalu ei fenthyciadau, i roi ynni i'r ysgubor ac o fudd i'r gymuned. Mae wedi cynnig talu £1000 y flwyddyn i'r Cyngor Cymuned. Soniodd Mr Roberts fod ganddo gefnogaeth leol i'r fenter hon.

Dywedodd y Cynghorydd H Ll Jones na dderbyniwyd gwrthwynebiadau a theimlai y byddai'r effaith AONB yn llai na'r tyrbinau presennol. Mae'r ymgeisydd yn cynnig cyfraniad i'r gymuned ac mae hwn yn cael ei groesawu. Nid oedd yn meddwl y byddai'n gosod cynsail gan fod hwn yn unigryw gan fod y safle wedi'i gysylltu i'r Grid yn barod.

Gofynnodd y Cynghorydd D Hannam am eglurhad ar yr effaith crynodol. Teimlai'r Cynghorydd R Hughes fod barn leol yn bwysig ond cyfeiriodd at ymatebion statudol oddi wrth CCW, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Hedfan Sifil nad oedd wedi cynnig unrhyw wrthwynebiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P Dobb at gyfarfod diweddar o'r AONB JAC, lle'r oedd cefnogaeth ond rhywfaint o amheuaeth am osod cynsail.

Ymatebodd y Prif Swyddog Cynllunio, Ian Weaver i'r ymholiadau – mae manylion yr effaith crynodol yn adroddiad y swyddog. Bydd effaith ond y pwyllgor ddylai benderfynu os bydd hyn yn gwneud materion yn llawer gwaeth. Mae cynsail yn bwysig - mae 46m yn fawr ar gyfer defnydd domestig.

Dywedodd Denise Shaw (Swyddog Ynni Adnewyddadwy) fod tyrbin o dan 5mgw yn derbyn tariff i symbylu incwm.

Soniodd y Cynghorydd H Ll Jones am raddfa'r tyrbin, nad oedd unrhyw ddiffiniad o 'bychan' yn yr adroddiad. Dywedodd fod Polisi UDP MEW 8 yn

cefnogi datblygiad o’r fath os nad oes llawer o effaith. Mae gan y Swyddog Tirlunio farn ar hyn ond hefyd y trigolion lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd D I Smith am eglurhad ar gynhwysedd y Grid - os bydd y datblygiad hwn yn llenwi’r Grid, oni all rhywun arall fwydo i mewn iddo?

Dywedodd Ms Denise Shaw (Swyddog Ynni Adnewyddadwy) fod problem cynhwysedd yn y Grid yng Ngogledd Cymru ond roedd i bwrpas statudol.

Gofynnodd y Cynghorydd G M Kensler pwy oedd y Swyddog Tirlunio. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead, mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd yn cynnig y gwasanaeth hwnnw.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd H Ll Jones y dylid rhoi Caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd G M Kensler**

**O’i roi i bleidlais:**
**15 pleidlais i Ganiatáu**
**13 pleidlais i Wrthod**
**0 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD YN ERBYN ARGYMHELLIAD**
**Yn ddibynnol ar Amodau Newydd**

Swyddogion i ddrafftio amodau ac ymgynghori gyda’r Aelod lleol cyn anfon rhybudd o’r penderfyniad.

**Gwnaed y penderfyniad YN ERBYN Argymhellion y Swyddogion am y rheswm canlynol:**

Teimlai’r Pwyllgor y byddai’r tyrbin yn gwneud cyfraniad positif i’r economi leol.

**Eitem: 2**

**Rhif y Cais: 07/2011/1260/PF**

**Lleoliad:** **Cyn Feudy yn Fferm Cadwst Mawr, Llandrillo, Corwen**

**Disgrifiad:** Trawsnewid tŷ allan yn annedd, gan osod draeniad nad oedd yn rhan o'r prif ddraeniad a chreu mynediad i'r briffordd

**Dywedwyd iddyn nhw dderbyn y llythyrau datganiadau ychwanegol canlynol:**

- Cyngor Cymuned Llandrillo
- Swyddog Cynllunio AONB Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Pennaeth Priffyrdd Sir Ddinbych
- Ymgynghorydd Coed FWAG

**Siaradwyr Cyhoeddus:** Mr Keith Evans (Tros)

Gofynnodd Mr Evans i'r Pwyllgor gymeradwyo'r trawsnewid hwn ac awgrymodd y buddion o wneud hynny: cadw ffabrig hanesyddol yr adeilad, gwella cymeriad y tirlun a chefnogi fferm y teulu.

Awgrymodd Mr Evans na fyddai unrhyw effaith ar y tirlun ond ei wella ac nad oedd unrhyw berygl o lifogydd. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi rhoi lluniau o'r adeilad yn yr 1960au a'r bwriad yw ei adnewyddu yn unol â'r adeilad gwreiddiol.

Roedd yn ystyried nad oedd Polisi HSG8 yn gymwys ac roedd yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r teulu hwn.

Roedd y Cynghorydd C Williams (aelod lleol) eisiau gwneud ei orau dros ei gymuned ond o fewn canllawiau. Dywedodd nad oedd unrhyw adeiladu sylweddol wedi digwydd am nifer o flynyddoedd ond teimlai bod y gweddillion yn addas i'w hadnewyddu a rhoddodd dystiolaeth ffotograffig o drawsnewidiadau llwyddiannus mewn ardaloedd eraill. Cyfeiriodd hefyd at ddiffyg gwrthwynebiad gan Gyngor Cymuned Llandrillo, Pwyllgor AONB, CCW, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys. Roedd yr Arolygydd Adeiladau hefyd wedi dweud ei fod yn addas i'w drawsnewid. Teimlai na fyddai adfer adeilad oedd yn bodoli'n effeithio ar y tirlun cymaint â'r fferm o 24 tyrbin gwynt a fwriadwyd gerllaw.

Teimlai'r Cynghorydd D Hannam na fyddai unrhyw niwed wrth wneud y trawsnewidiad hwn os byddai'n cael ei wneud yn gydymdeimladol drwy ddefnyddio cerrig a llechi.

Gofynnodd y Cynghorydd B Smith am y weithdrefn petai'r Pwyllgor yn rhoi pleidlais i Ganiatáu heb awgrymu amodau.

Credai'r Cynghorydd M Ll Davies y gellid adnewyddu'r adeilad yn gydymdeimladol ac y byddai'n toddi i mewn i'r tirlun. Teimlai y dylai'r ymgeisydd gadw'r nodweddion fel agoriadau'r ffenestri a gofynnodd a allai'r annedd gorffenedig gael ei gysylltu i'r fferm drwy amod.

Teimlai'r Prif Swyddog Cynllunio, Ian Weaver, fod y sefyllfa hon ar ffin cyngor polisi ac awgrymodd y dylid cymryd gofal i osgoi adeilad newydd yng nghanol cefn gwlad. Mae polisi'n caniatau i fân ail-adeiladu ond mae angen ail-adeiladu mwy na hanner yr adeilad hwn. Cyfeiriodd at ddatganiad y Cynghorydd Williams am adnewyddiadau mewn awdurdodau eraill ond mae'n bosibl bod eu polisïau nhw'n wahanol. Dywedodd Mr Weaver y gellid gosod amodau am ddeunyddiau ond nid yw hyn yn arferol, na'n rhesymol, i gysylltu ysgubor wedi'i thrawsnewid i fferm.
Teimlai'r Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead fod y sefyllfa hon yn un o adeilad diogel yn barod i'w drawsnewid a phentwr o gerrig, heb fod yn un eithaf yn yr achos hwn. Os bydd y Pwyllgor yn rhoi caniatâd, bydd y swyddogion yn drafftio amodau ac yn ymgynghori â'r Aelod lleol.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd C H Williams y dylid Caniatáu'r cais hwn**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd G M Kensler**

**O'i roi i bleidlais:**
**25 pleidlais i Ganiatáu**
**3 pleidlais i Wrthod**
**0 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD YN ERBYN ARGYMHELLIAD**
**Yn ddibynnol ar:**

Swyddogion i ddrafftio amodau ac ymgynghori gyda'r Aelod lleol cyn anfon rhybudd o'r penderfyniad.

**Gwnaed y penderfyniad YN ERBYN Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:**

Gall yr adeilad gael ei drawsnewid a byddai'n gwneud cyfraniad i'r tirlun.

**Eitem: 3**

**Rhif y Cais: 19/2011/1499/PF**

**Lleoliad:** **Tir yng Ngharreg Einws, Llanelidan, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Newid defnydd tir ar gyfer safle 'podiau gwersylla' gwyliau, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiol

Roedd y Cynghorydd M Ll Davies yn dangos cymhariaeth gyda'r cais am drawsnewid sgubor yng nghanol cefn gwlad, gan ddweud y byddai'n well ganddo drawsnewid i osod 'siediau'.

Cytunodd y Cynghorydd P A Dobb, gan ofyn pa mor fawr oedd y podiau a pha effaith fydden nhw'n ei gael ar gefn gwlad.

Cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio, Mr David Roberts at luniau yn adroddiad y Pwyllgor a dywedodd fod y podiau'n llai na charafán. Nid oedd ganddyn nhw drydan na dŵr, roedd y cyfleusterau ar gael mewn bloc cawodydd ar wahân.

**Trafodaeth Gyffredinol:**
Gofynnodd y Cynghorydd B Smith a oedd y podiau o fewn y Polisi UDP ar gyfer carafanau sefydlog.

Dywedodd Mr David Roberts ei fod rhwng polisïau carafanau ac arallgyfeirio ffermydd, sy'n gofyn i ddatblygiad o'r fath fod yn israddol. Ar ôl ei adeiladu, nid oes bwriad i symud y podiau felly ni fyddai'r effaith yn newid fel safle carafanau symudol. Hefyd roedd llai o angen am sicrhau bod y safle'n hygyrch i drafnidiaeth gyhoeddus.

**Cynigion:**

**O'i roi i bleidlais:**
**22 bleidlais i Ganiatáu**
**3 pleidlais i Wrthod**
**1 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 4**

**Rhif y Cais: 24/2010/0086/PF**

**Lleoliad:** **Bod Ynys, Rhewl, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Codi 2 estyniad i adeiladau amaethyddol presennol (yn rhannol yn adolwg).

**Dywedwyd iddyn nhw dderbyn y llythyr datganiadau canlynol oddi wrth:**

- Cyngor Cymuned Llanynys

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad â'r safle ddydd Gwener 16 Mawrth 2012.

Adroddodd y Cynghorydd G C Evans (Aelod lleol) ar natur adolwg y cais hwn a'i ymgais i gynorthwyo'r ymgeisydd. Dangosodd yr ymweliad â'r safle fod yr adeilad yn y lle cywir ond bod angen caniatâd cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd Dewi Owens fod y cais hwn yn cael ei ohirio. Teimlai ei fod yn annerbyniol bod fferm o eiddo'r Cyngor yn methu â gofyn am ganiatâd cynllunio cyn adeiladu.

Teimlai'r Cynghorydd M Ll Davies y dylai'r Pwyllgor hysbysu'r adrannau perthnasol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

Addawodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead y byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i'r Adran Ystadau ond y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y materion Cynllunio. Mae'r adeilad yn dderbyniol.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd G C Evans y dylid rhoi Caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ray Bartley**

**O'i roi i bleidlais:**
**25 pleidlais i Ganiatáu**
**1 bleidlais i Wrthod**
**0 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 5**

**Rhif y Cais: 24/2010/2017/PC**

**Lleoliad:** **Bod Ynys, Rhewl, Ruthin**

**Disgrifiad:** Adeiladu storfa biswail gylchog – manylion diwygiedig (cais adolwg)

**Dywedwyd iddyn nhw dderbyn y llythyrau datganiadau ychwanegol canlynol oddi wrth:**

- Cyngor Cymuned Llanynys
- E & J Jones, Erw Eithin, Rhewl, Rhuthun
- C I Williams, Brynhyfryd, Rhewl, Rhuthun

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad â’r safle ddydd Gwener 16 Mawrth 2012.

Gofynnodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead am ohirio’r cais hwn er mwyn cynnal trafodaethau pellach ar sgrinio a thirlunio.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd G C Evans y dylid gohirio**
**Eiliodd y Cynghorydd D Owens y cynnig**
**Gofynnodd wedyn am gyflwyno adroddiad am y sefyllfa**

**O’i roi i bleidlais:**
**27 bleidlais i OHIRIO**
**0 pleidlais yn erbyn Gohirio**

**Eitem: 6**

**Rhif y Cais: 43/2010/0102/PF**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Sinema Scala a Chanolfan Groeso**<br>**45/47/49 Y Stryd Fawr, Prestatyn** |
| **Disgrifiad:** | Newid defnydd o siop (Dosbarth A1) yn 45 Y Stryd Fawr yn gaffi (Dosbarth A3) a llunio mynediad mewnol i ganolfan y sinema a llecyn eistedd y tu allan |

Datgelodd y Cynghorydd Rhiannon W Hughes fudd yn y cais hwn a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei ystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd R L Feeley sut roedd yr ailwampio'n cael ei ariannu.

Dywedodd y Cynghorydd P Dobb ei fod yn cael ei Ariannu gan Grant.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd G Kensler y dylid rhoi Caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd D Owens**

**O'i roi i bleidlais:**
**24 pleidlais i Ganiatáu**
**0 pleidlais i Wrthod**
**0 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Eitem: 7**

**Rhif y Cais: 44/2011/1500/PF**

**Lleoliad:** **Nevis, Ffordd y Gors, Rhuddlan, y Rhyl**

**Disgrifiad:** Dymchwel annedd un llawr presennol ac adeiladu annedd deulawr 4 ystafell wely newydd

Datgelodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais hwn a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei ystyried.

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad â'r safle ddydd Llun 19 Mawrth 2012. Gofynnodd y Cynghorydd J Bellis a oedd dryswch ynglŷn â pherchnogaeth y safle'n gwneud y cais yn annilys.

Eglurodd y Swyddog Cyfreithiol, Susan Cordiner fod ansicrwydd ar y dechau ynglŷn â'r dystysgrif berchnogaeth a gyflwynwyd gyda'r cais ond nid oedd hyn yn golygu bod y cais yn annilys gan fod yr holl berchnogion tir oedd yn berthnasol wedi cael y rhybudd angenrheidiol. Roedd y rhybudd hwn yn rhoi cyfle i unrhyw un â diddordeb fynegi barn. Cafwyd ymholiadau a oedd cofnodion y Gofrestrfa Tir yn gyfredol ond nid oedd hyn yn gwarantu gohirio'r cais cynllunio.

**<u>Siaradwyr Cyhoeddus</u>:**

**Mr Pownell (Yn erbyn).**
Cyfeiriodd Mr Pownell at faterion perchnogaeth gan fod y Gofrestrfa Tir yn dangos bod y safle i gyd yn eiddo i un cwmni sef Safle Carafanau Clwyd View. Roedd ceisiadau blaenorol ar gyfer y safle garafanau a phorthdy'r warden wedi defnyddio rhan o ardd Nevis. Roedd hefyd yn amau'r hawl bod giât wedi bod yno.

**Mr Chris Noble (Tros)**
Dywedodd Mr Noble wrth y Pwyllgor fod Nevis yn fyngalo un ystafell wely bychan. Pan ddychwelodd Simon Thomas gyda'i deulu ar ôl gweithio dramor, cynigiodd ei dad Nevis iddo a chyfnewidiwyd arian. Trefnwyd y materion cyfreithiol yn ddiweddarach a chyflwynwyd newid perchnogaeth i'r Gofrestrfa Tir. Pan oedd ychwanegiad i'r teulu ar fin cyrraedd, roedd angen eiddo mwy felly gwnaeth Simon ymholiadau gyda'r Swyddogion Cynllunio am y posibilrwydd o ymestyn Nevis. Awgrymodd y Swyddogion er nad oedd estyniad yn ateb hawdd, os oedd ganddo ddigon o dir, byddai annedd newydd yn fwy derbyniol. Cynigiodd tad Simon y tir ychwanegol iddo er mwyn gallu adeiladu annedd mwy.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead wrth y Pwyllgor fod y cais yn ddilys ac nad oedd unrhyw reswm i oedi'r penderfyniad.

Mae'r safle o fewn y Ffin Datblygu ac mae cymysgedd o anheddau. Bwriedir codi'r annedd newydd ar safle ychydig yn wahanol i adeilad 'Nevis' i gynyddu'r

pellter oddi wrth yr anheddau presennol. Nid oes unrhyw wrthwynebiad wedi dod o ymgynghoriadau gyda Phriffyrdd, Risg o Lifogydd a Draeniad.

Mynegodd y Cynghorydd Ann Davies bryderon am gyfreithlondeb y berchnogaeth a materion rhannu mynedfa y gellid ei rhwystro yn ystod yr adeiladu. Gofynnodd y Cynghorydd Davies hefyd a fyddai Nevis yn cael ei ddymchwel yn gyntaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R Bartley at yr ymweliad â'r safle oedd wedi edrych ar y problemau mynediad a'r draeniad. Soniodd fod cerbydau adeiladu yn mynd i gael eu cyfyngu drwy amod.

Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies a oedd lefelau'r lloriau i'w codi yn erbyn llifogydd ac awgrymodd y dylid cynyddu'r nifer o aelodau'r panel sy'n ymweld â safleoedd.

Awgrymodd y Cynghorydd B A Smith fod swyddogion yn sicrhau bod Nevis yn cael ei ddymchwel, i atal dau dŷ ar yr un darn o dir.

Atebodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead yr ymholiadau a dywedodd fod symud yr annedd newydd a dymchwel Nevis yn rhoi gardd flaen mwy i'r eiddo newydd. Cytunodd i amod fod Nevis yn cael ei ddymchwel o fewn 6 mis i symud i mewn i'r eiddo newydd.

Hefyd, cytunodd Mr Paul Mead i adolygu aelodaeth y panel ymweld â safleoedd ym Mlwyddyn Newydd yr Awdurdod.

Dywedodd hefyd fod materion perchnogaeth tir yn fater cyfreithiol, nid i annilysu'r broses gynllunio.

Cadarnhaodd ymhellach fod y mater o fynedfa wedi'i drafod.

**Cynigion**
**Cynigiodd y Cynghorydd J Butterfield y dylid rhoi Caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Cefyn Williams**

**O'i roi i bleidlais:**
**23 pleidlais i Ganiatau**
**2 bleidlais i Wrthod**
**1 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Yn ddibynnol ar:**

**Newid bach i eiriad Amod 11**
3edd linell, dylai'r gair HILLCRESET ddarllen fel HILLCREST

**Ychwanegu un amod**
15. Bydd yr annedd presennol, Nevis, yn cael ei ddymchwel ddim hwyrach na 6 mis ar ôl symud i mewn i'r annedd sydd yma'n cael ei gymeradwyo.

*Rheswm*: Y caniatâd a roddir yw amnewid annedd a bydd yn rhaid symud yr annedd presennol i ganiatáu creu mynedfa a man troi.

**Eitem: 8**

**Rhif y Cais: 45/2011/1512/PF**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir tu cefn i Swyddfeydd Sanlam, Derwen Tŷ Derwen, Derwen, y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | defnyddio tir ac adeiladau i ddarparu canolfan storio a gosod unedau aml-lwyth |

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Colin Williams (Tros)**

Dywedodd Mr Colin Williams iddo gynnal busnes y teulu yn Ffordd y Gors am 20 mlynedd ac erbyn hyn mae'n cyflogi 20 o bobl leol. Ni chafwyd unrhyw gŵyn ond mae'r safle'n awr yn llawn. Gellid creu 3 swydd arall drwy agor y safle newydd. Roedd yn deall bod trigolion gerllaw'r safle newydd wedi cael problemau gyda sŵn yn y gorffennol ond roedd y deilwyr blaenorol yn gweithio bob awr ac yn defnyddio cerbydau mwy. Dim ond yn ystod y dydd mae cwmni Mr Williams yn agored. Teimlai bod tawelwyr traffig ynddo'i hun yn achosi sŵn. Mae wedi ysgrifennu at y trigolion lleol i ddweud na fydd yr unedau'n cael eu gosod ger eiddo presennol ac y byddai'r safle'n cael ei chloi dros nos.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones (Aelod lleol) at bryderon y trigolion ond tawelodd y siaradwr ei feddwl. Fodd bynnag, mynegodd siom am y nifer o goed oedd wedi'u torri a chyfeiriodd at broblemau traffig yn ystod oriau brig. Credai'r Cynghorydd Chamberlain Jones y dylid gwrthod y cais ond gofynnodd am ail-ystyried oriau agor petai'r caniatâd yn cael ei roi.

Roedd y Cynghorydd David Lee (Aelod lleol) yn bryderus am raddfa'r gwaith a'r effaith ar drigolion lleol. Cyfeiriodd hefyd at broblemau traffig yn lleol.

Cytunodd y Cynghorydd A Pennington fod problem traffig ac awgrymodd y Cynghorydd B Blakeley y byddai datblygiad newydd Aberkinsey gerllaw yn gwneud y problemau hyn yn waeth. Fodd bynnag, roedd yn cydymdeimlo â'r ymgeisydd.

**Cynigiodd** y Cynghorydd Blakeley fod yr oriau agor yn cael eu newid i:

| | |
|---|---|
| Llun - Gwener | 8am – 6pm |
| Sadwrn | 8am – 5pm |
| Sul a Gwyliau Banc | 10am – 4pm |

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M Ll Davies

Gofynnodd y Cynghorydd B Smith am reoli cynnwys yr unedau.

Gofynnodd y Cynghorydd G Kensler a oedd unrhyw Orchmynion Cadwraeth ar y coed.

Teimlai'r Cynghorydd J Butterfield yn gryf am y coed a byddai'r traffig yn waeth pan fyddai'r llif traffig ar y Bont H gerllaw yn cael ei newid yn unffordd. Nid

oedd y Cynghorydd Butterfield yn meddwl y dylai'r safle fod yn agored ar ddydd Sul.

Cytunai aelodau eraill gyda materion a godwyd am y coed a'r traffig a'r aflonyddwch i drigolion.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio, David Roberts na fyddai unrhyw straen ychwanegol ar y briffordd oherwydd y defnydd hwn. Byddai digon o fannau parcio a lle i droi a bydd amod yn cyfyngu ar y nifer o unedau aml-lwyth ar y safle. Mae'r defnydd arfaethedig yn dderbyniol gan fod y safle'n Safle Cyflogaeth enwebedig yn yr UDP. Dywedodd Mr Roberts nad oedd unrhyw Orchmynion Cadwraeth ar y coed ar y safle ei hun ond gellid gosod amod i ofyn am ardal ddiogelu o 3m o gwmpas pob coeden i atal niwed. Mae angen gweithredol am yr oriau agor ond gallai'r Pwyllgor eu newid os bydd angen. Mae angen caniatâd ar wahân i storio deunyddiau peryglus a chyfrifoldeb Asiantaeth yr Amgylchedd yw gorfodi'r caniatâd hwnnw.

**GWELLIANT**
**Rhoddwyd y Cynigion yn ymwneud â'r oriau gweithredu**

| | |
|---|---|
| **Llun - Gwener** | **8am – 6pm** |
| **Sadwrn** | **8am – 5pm** |
| **Sul a Gwyliau Banc** | **10 am- 4pm** |

**i bleidlais**

**10 pleidlais i orfodi'r oriau hyn**
**14 pleidlais i beidio â gorfodi'r oriau hyn**
**0 wedi ymatal**

**Felly collwyd y gwelliant hwn.**

**Cynigion:**
**Cynigiodd R Hughes y dylid rhoi Caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd G Kensler**

**O'i roi i bleidlais:**
**23 pleidlais i Ganiatau**
**1 bleidlais i Wrthod**
**0 wedi ymatal**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Yn ddibynnol ar**

**Newid bach i Amod 4**

4. Ni ellir storio unrhyw uned aml-lwyth o fewn 3 metr i daeniad coron coed y ffin sydd wedi'u nodi ar y cynlluniau a gymeradwywyd yma.

**6 RHYBUDD O APÊL CYNLLUNIO, CARTREF PRESWYL DEWI SANT, RHODFA'R DWYRAIN, STRYD TARLETON, Y RHYL**

Adroddiad wedi'i gyflwyno gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio yn dweud wrth y Pwyllgor iddyn nhw dderbyn apêl yn erbyn gwrthod y cais uchod. Bydd yr apêl yn cael ei glywed gan yr Arolygiaeth Gynllunio ddydd Mawrth 19 Mehefin 2012.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am enwebiadau i benodi dau aelod o'r Pwyllgor i gynrychioli i roi tystiolaeth yn y Gwrandawiad Apêl.

***PENDERFYNWYD*** *o 23 pleidlais i 0 y byddai'r Cynghorwyr D Hannam a J B Bellis yn cynrychioli'r Pwyllgor i roi tystiolaeth yn y Gwrandawiad Apêl os byddan nhw'n cael eu dychwelyd yn yr etholiadau lleol sydd ar y gorwel.*

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy longyfarch pawb oedd wedi bod yn rhan o apêl ddiweddar yn ymwneud â Castlefields, Rhuddlan.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Cowie hefyd Llanelwy ar dderbyn Statws Dinas.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.**